Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CANLYNIAD

MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	**Harri Edwards**	**Rhif P y myfyriwr:**	**1702990**
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	**Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion**	**Lefel y Modwl (6 neu 7):***	**7**
Cod y modwl:*	**M7X02153**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):***	**70%**
Arweinydd modwl:*	**Helen Lewis/ Gail Parker/ Rachel Wallis**		
Teitl yr Aseiniad:	**Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau**	**Rhif yr Aseiniad (x o x):***	**1/2**
Dyddiad cychwyn:*	**5.3.18**	**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:***	**30.5.18**
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*		**Nifer o eiriau:**	**4303**

›

Cyfeirnodi:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnodi i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, teitl y llyfr, argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	**Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol.** **Sylwer:** y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. **Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr** Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	**Dyddiad:**	

Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.	**IE**	
	NA	√

MEINI PRAWF AC ADBORTH MYFYRWYR

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y meini prawf asesu. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich gradd. Dangosir y pwysiad sydd ar gael ar gyfer pob maen prawf. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	**Y radd a ddyfarnwyd**
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc) Ehangder y gwaith ymchwil a/neu eich gwaith darllen eich hun, dethol adnoddau credadwy, defnyddio arferion cyfeirnodi priodol. Ehangder y wybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau a'r egwyddorion sy'n sail i ac yn gysylltiedig â'r ddisgyblaeth.	
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad) Dadansoddiad, gwerthusiad a synthesis; rhesymeg, dadl a phenderfyniadau; adfyfyrio dadansoddol; trefn syniadau a thystiolaeth.	
3. Cymwysiadau Pedagogaidd a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol) Defnydd o ddulliau addysgol, deunyddiau, offer a thechnegau; cymhwyso cysyniadau; llunio datrysiadau arloesol a chreadigol i ddatrys problemau. Priodoleddau arfer proffesiynol: gweithio fel unigolyn neu yn gydweithredol.	
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol Defnydd o gyfryngau priodol; cyflwyno a threfnu.	

Marc yr Aseiniad (Mae marciau'r asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r graddau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	**Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (rhowch dic os ydy'n berthnasol)**		
	Hyd at un wythnos yn hwyr		
	Mwy nag un wythnos yn hwyr		

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	CYFEIRIO		D	C	B	A
	METHU'N LLWYR	ANFODDHAOL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc)	☐	☐	☐	☐	☐	☐
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)	☐	☐	☐	☐	☐	☐
3. Cymwysiadau Pedagogaidd a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)	☐	☐	☐	☐	☐	☐
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol	☐	☐	☐	☐	☐	☐

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO'N DDA YNDDYNT	RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU
Teimlaf fy mod wedi defnyddio llenyddiaeth yn effeithiol wth drafod camau nesaf i'r dysgwyr ac mae'r ymchwiliad wedi bod yn fuddiol wrth i mi ddechrau fy ngyrfa broffesiynol.	Tro nesaf byddaf yn datblygu fy nulliau ymchwilio i ddefnyddio'r dull mosaig yn fwy effeithiol ac amrywio i ddatblygu canlyniadau mwy manwl.

Enw'r myfyriwr	**Harri Edwards**	**Dyddiad**	**29.5.18**
Llofnod y Myfyriwr	**H.Edwards**		

Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Rhagarweiniad

Lleolir yr ysgol yn ardal drefol yn Sir Abertawe gyda 582 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr gan gynnwys 115 o ddisgyblion oed meithrin (ESTYN, 2017). Cymraeg yw prif iaith yr ysgol gyda disgyblion wedi'u rhannu rhwng 20 dosbarth gan gynnwys tri dosbarth cymysg (ESTYN, 2017). Derbynnir 7% prydau ysgol am ddim sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 19% (ESTYN, 2017). Yn ychwanegol, mae 13% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd eto yn llai na'r canran cenedlaethol sef 25% (ESTYN, 2017). Nodir mai dim ond ychydig o ddisgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd (ESTYN, 2107).

Amcan yr aseiniad yma yw i ddadansoddi yn fanwl datblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf i'r unigolyn. Mae'r dysgwr ym mlwyddyn 5 gyda 32 o ddisgyblion eraill yn y dosbarth. Yn anffodus mae nifer o gyfyngiadau yn y dosbarth ar ran cyfleusterau technoleg gyda dim ond pum gliniadur ar gael. Wrth arsylwi a thrafod gyda'r disgybl yma yn ystod fy nghyfnod profiad addysgu proffesiynol awgryma bod y disgybl yn berson hyderus, rhadlon a pharchus gyda nifer o ddiddordebau gwahanol. Dangoswyd hefyd mai'r disgybl yn berson cryf yn y dosbarth wrth iddo fynegi ei farn yn rheolaidd gyda'i ffrindiau ac oedolion.

Wrth arsylwi yn yr wythnos gyntaf yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol sylweddolais fod y dysgwr yn cael trafferth canolbwyntio ar dasgau annibynnol. Fodd bynnag, dangoswyd y dysgwr y canfyddiad ei fod yn gweithio yn effeithiol mewn grwpiau neu waith pâr gan gynnal trafodaethau dwys gyda'i gyfoedion. Dywedodd y dysgwr ei fod yn dod o gartref lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd. Er hynny, ychwanegodd y dysgwr bod ei rieni yn gefnogol iawn o'i addysg yng Nghymraeg ac yn ceisio dysgu'r iaith i gefnogi yn ei waith ysgol. Yn ogystal gallwn ystyried y ffaith fod rhieni'r dysgwr wedi cael ysgariad yn ddiweddar.

Casglu Data

Y dull a ddefnyddiwyd i gasglu data yn yr ymchwiliad hwn oedd y dull mosaig. Ymchwil gyfranogol sydd yn seiliedig ar dasgau a daeth i amlygrwydd ym maes astudiaeth plentyndod (James et al, 1998) yw'r dull mosaig ac maent yn dod yn fwy amlwg a ddominyddu gwaith ymchwil hyd yn hyn (Gallacher a Gallagher, 2008). Noda Brown (2015) trwy ymgorfforir dull mosaig gallwn gasglu data trwy ystod eang o ddulliau i ddod at gasgliad manwl o'r unigolyn. Un o'r trafodaethau mwyaf arwyddocaol ar hyn o bryd yw pwysigrwydd llais y plentyn yn yr ysgol gyda Lewis a Lindsay (2000) a Christiensen a James (2000) yn awgrymu effaith cadarnhaol o wrando ar y plant wrth gwblhau ymchwiliad gan ddefnyddio'r dull mosaig. Dadleua Brown (2015) mai effaith dull mosaig yn galluogi ymchwilwyr i fod yn greadigol wrth ymchwilio gan ddatblygu'r dulliau dewiswyd ac ni fydd cyfyngiadau i'r ymchwiliad. Fodd bynnag, awgryma Cowie et al. (2014) mai samplau o ddata ymchwiliadau'r dull mosaig yn aml iawn yn gyfyng felly mae'n anodd gwneud cyffredinoliadau. Mae'r data, er yn ansoddol gyfoethog, gall fod yn llanast, anhrefnus a llethol (Cowie et al., 2014).

Honna Clark (2004) mai tri phwynt cychwyn o'r dull mosaig. Yn gyntaf mae Clark (2004) yn ystyried y pwysigrwydd o'r syniadau mynegwyd gan gymdeithaseg sy'n dod i'r amlwg o blentyndod. Mae'r awgrymiadau Clark (2004) yn cael ei chefnogi gan Qvortrup et al. (1994) lle awgryma bod plant yn *"beings not becomings".* Yn ogystal i awgrymiadau Qvortrup et al. (1994) haera Langsted (1994) bod y math o ymchwiliad yma yn ystyried plant fel arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain. Yn ail edrychwyd Clark (2004) ar sut i ddatblygu methodoleg i rymuso oedolion mewn cymunedau yn y byd mwyafrif ac addasu i ddefnyddio gyda phlant. Dadleua Clark (2004) trwy roi llais i blant gallwn gael y wybodaeth orau a mwyaf perthnasol bosibl wrth gynnal gwaith ymchwil yn yr ysgol. Er hynny, heria Cooke a Kothari (2001) y canfyddiad yma wrth gwestiynu ydy'r dulliau wedi galluogi unrhyw lwyddiannau effeithiol. Yn trydydd, cysylltwyd Clark (2004) gyda'r fframwaith addysgeg Reggio Emilia. Cafwyd y fframwaith addysgeg ei datblygu yn yr 1940au (Clark, 2004) gydag addysgwyr yn Reggio yn dychmygu'r plentyn fel *"rich child"* sydd yn gryf, cymwys a weithgar. Creda Clark (2004) bod dysgu'n cael ei ystyried fel proses gydweithredol lle mae oedolion a phlant yn chwilio am ystyron gyda'i gilydd ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dull mosaig.

Ar gyfer fy ngwaith ymchwil penderfynais ymgorffori'r dulliau arsylwi, cyfweliadau, adborth a arweinir gan y disgybl a chofnodion ffurfiannol a lluniau o fy mhrofiad addysgu proffesiynol i greu fy mosaig. Awgryma Nisbet (1977) mai dull arsylwi yn dechneg sydd gyda chyfyngiadau i ddefnyddio gan nodi bod cynllunio gofalus a threialu yn hanfodol ac mae ymarfer arsylwi yn hanfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y dechneg hon. Fodd bynnag, teimlaf yn hyderus wrth gwblhau arsylwadau wrth i mi ddatblygu a defnyddio'r dechneg yn ystod fy mhrofiadau addysgu proffesiynol. Dadleua Grigg (2015) trwy ddefnyddio'r dechneg o arsylwi yn ein gwaith ymchwil gallwn gofnodi sylwadau fel mae'n digwydd. Yn ogystal noda Grigg (2015) bod mwyafrif o ymarferwyr yn cael profiad o arsylwi yn ystod eu gyrfa alluogi'r ymchwilydd i fedru defnyddio'r dull yn effeithiol.

I ddarganfod canfyddiadau'r dysgwr yn effeithiol byddaf yn defnyddio'r dull o gyfweliadau. Rhestra Hitchcock a Hughes (1995) nifer o dechnegau gall ymchwilwyr defnyddio o gyfweliadau strwythuredig, arolygon neu drafodaethau a chlustfeinio. Ar gyfer yr aseiniad yma penderfynais gynnal trafodaethau a chlustfeinio ar y dysgwr i geisio cadw'r sefyllfa ac ymatebion y dysgwr mor naturiol â phosib. Awgryma Conteh a Toyoshima (2005) y canfyddiad bod ymchwiliad gyda thrafodaethau yn llai dibynadwy. Er hynny, dadleua Kvale (1996) mai cyfiawnhad damcaniaethol ar gyfer cysnoli cyfweliadau fel sgwrs gan nodi bod trafodaeth fel dull sylfaenol o wybod trwy cyfeirio at safiad athronydd Rorty (1979) bod y wybodaeth yn fater o sgwrsio ac arfer cymdeithasol, yn hytrach nag ymgais i adlewyrchu natur.

Penderfynais i ddarparu adborth a arweinir gan y disgybl yn gyson yn ystod yr ymchwiliad. Awgryma'r Higgins et al. (2014) gall adborth fod yn heriol i athrawon. Er hynny, Pan gaiff ei ddefnyddio yn y ffordd gywir, gall fod yn un o'r strategaethau mwyaf effeithiol i wella dysgu (Higgins et al., 2014). I sicrhau fy mod yn effeithiol byddaf yn dilyn awgrymiadau a nodwyd yn astudiaeth achos gan ESTYN (2016). Awgryma ESTYN (2016) i geisio datblygu dull adborth sy'n gadarnhaol, yn benodol ac yn dangos y camau nesaf yn glir i'r disgyblion.

Y dull olaf a ddefnyddiwyd yn fy mosaig yw cofnodion ffurfiannol a ffotograffau o fy mhrofiad addysgu proffesiynol. Mae Gallacher a Gallagher (2008) yn trafod yr effaith o ddefnyddio llyfr nodiadau yn y dosbarth a trwy weithredu gyda fy llyfr nodiadau yn medru tynnu sylw'r plant. I greu ymddiriedolaeth gyda'r dysgwr penderfynais ddilyn awgrymiadau Christensen (2004)


lle nodwyd y syniad o adael i'r dysgwr ddefnyddio fy llyfr nodiadau ac i fynd i drafodaethau lle nid oeddwn yn fuddugol yn rheolaidd yn ymddangos i osod y sylfaen ar gyfer perthnasau ymddiriedol trwy gydol y profiad.

I sicrhau anhysbysrwydd i'r dysgwr dilynwyd canllawiau BERA (2011) a ddilyn camau Polisi Diogelu Plant yr ysgol. Wrth ddadansoddi gwaith y dysgwr byddaf yn cyfeirio at y disgybl fel 'Plentyn A' i sicrhau anhysbysrwydd. Mae Blaxter et al. (1996) yn trafod y pwysigrwydd o gwblhau ffurflinau a chytundebau cyn dechrau'r ymchwiliad. Cefnoga Cohen a Manion (1994) ei fod yn hanfodol i gael caniatâd o'r safle ymchwil cyn dechrau unrhyw waith ymchwil. Gwelir yn Atodiad 1 y llythyr caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion, Haf 2018' a arwyddwyd gan y mentor dosbarth.

Dadansoddi'r Dysgwr

Wrth ddadansoddi Plentyn A penderfynais ddilyn y model ASG Nottingham (2013) sydd yn canolbwyntio ar agweddau, sgiliau a gwybodaeth y dysgwr. Trwy ddadansoddi agweddau Plentyn A o ran iaith a mathemateg wrth arsylwi, cyfweld a ffotograffau gall ystyried y pethau mae Plentyn A yn eu hoffi a'u casáu ac i benderfynu ar y ffordd gorau i ysgogi i gwblhau ei dasgau yn llwyddiannus. Wrth ganolbwyntio ar sgiliau Plentyn A gallaf ddadansoddi sgiliau cymdeithasol, corfforol, meddwl a deallusol a allai effeithio ar ddysgu Plentyn A. Yr elfen olaf yn y model ASG yw dadansoddi gwybodaeth Plentyn A lle gallaf ddefnyddio tystiolaeth a ddaw o samplau gwaith ac arsylwadau. Dengys diagram o fodel ASG Nottingham (2013) isod:

Y Model ASG – Agweddau, Sgiliau a Gwybodaeth



Mae Plentyn A yn fachgen deg blwydd oed yn ddosbarth blwyddyn pump. Trwy arsylwi ar Blentyn A yn ystod gyntaf fy mhrofiad addysgu proffesiynol sylweddolais ei fod yn hyderus ac yn barod i drafod materion yn aeddfed iawn gan ystyried ei oedran. Yn ystod fy wythnos gyntaf yn yr ysgol fe wnaethom ymweld â'r llyfrgell leol (digwyddiad rheolaidd mae'r ysgol wedi trefnu) ac fe wnes i arsylwi fod Plentyn A yn awyddus iawn i ymweld â'r llyfrgell i archwilio'r ystod o lyfrau y gallai ddewis nesaf i fynd adref. Yn ystod y daith i'r llyfrgell leol cafwyd cyfle i ymrwymo a dod i adnabod disgyblion eraill ac meddai ei fod yn awyddus i drafod gydag a chymysgu gyda disgyblion eraill yn y dosbarth. Daw Krashen (2004) i'r casgliad mai wedi'i sefydlu bod mynediad at lyfrau, fel y darperir gan lyfrgelloedd yr ysgol, yn arwain at lefelau darllen uwch. Cefnoga Broekhof (2011) mai'r berthynas gadarnhaol rhwng ymddygiad darllen a hyfedredd mewn darllen ac iaith, ymddengys bod gan y llyfrgelloedd ysgol y potensial i wella'r sgiliau hyn.

Haera Donaldson (2015) mai angen i wersi fod yn rhai sydd yn annog creadigrwydd gan osod tasgau ymarferol, rhyngweithiol a pherthnasol i fywydau tu allan i'r ysgol. Yn ystod fy sesiynau addysgu yn fy mhrofiad addysgu proffesiynol ymdrechais i ddarparu tasgau rhyngweithiol gyda nifer o gemau gan ddilyn awgrymiadau Donaldson (2015). Dangoswyd yn Atodiad 2 esiampl o Blentyn A yn cwblhau gem rhifedd a oedd yn seiliedig ar ddarganfod ffracsiynau cywerth ac yn Atodiad 3 Plentyn A yn creu darn o ddialog gyda phartner i berfformio ar flaen y dosbarth i'w cyfoedion. Wrth adlewyrchu ar fy addysgu yn y sesiynau teimlaf fy mod wedi darparu addysg effeithiol a thasgau priodol gyda'r dosbarth yn ymweld i fwynhau cwblhau'r gwaith. Yn ogystal, cefnoga'r mentor dosbarth gan ddarparu adborth cadarnhaol ar lafar.

Fodd bynnag, wrth drafod gyda Phlentyn A mynegodd ei bryderon wrth gwblhau tasgau rhyngweithiol ac ymarferol sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd. Mynegodd Plentyn A y farn bod plant mwy abl a thalentog (MAT) yn rhwystro arno wrth iddo gwblhau'r tasgau rhifedd oherwydd mae ganddynt y gallu i ddatrys problemau yn gynt nag ef. O ganlyniad i hyn, teimlodd roedd ei addysg yn cael ei niweidio ac nid oedd yn datblygu'r sgiliau rhifedd a oedd yn berthnasol i'r dasg a osodwyd. Mewn cyferbyniad, ni chafwyd Plentyn A yr un farn wrth gwblhau tasgau iaith sydd yn rhyngweithiol ac ymarferol. O ganlyniad i'r drafodaeth gallaf gael y canfyddiad bod Plentyn A yn teimlo'n fwy hyderus yn ei waith llythrennedd gan ei fod yn mynegi ei fod yn gallu cyfrannu mwy at y grŵp gyda llai o amser

meddwl i gymharu â gwaith mathemateg lle mae'n ei chymryd hi'n hirach i gwblhau tasgau a phrosesu ei feddyliau.

Yr ateb posibl i atal y broblem hon i Blentyn A yw sicrhau bod tasgau rhyngweithiol yn cael ei gwahaniaethu yn llwyddiannus gyda phlant yn gweithio mewn grwpiau sydd ar yr un lefel a sgiliau meddwl. Nododd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 29 (1989) *"The education of the child shall be directed to the development of the child's personality, talents and mental and physical abilities to their fullest potential".* Gan teilwra tasgau i bersonoliaethau, talentau ac chyraeddiadau gallwn llwyddo i ateb gofynion awgrymwyd gan Donaldson (2015). Yn ogystal, honna George (2011) i fod yn llwyddiannus i reoli a herio disgyblion MAT yn y dosbarth mae angen herio ffyrdd presennol o wneud pethau fel ffordd o ysgogi syniadau newydd a chryfhau galluoedd deallusol trwy ymarfer ac ymarfer.

Un o'r canfyddiadau cefais wrth ddadansoddi iaith y dysgwr yw ei fod yn trafferthu ysgrifennu yn yr iaith Cymraeg yn gywir er ar lafar siaradwyd yn hyderus. Trafodais gyda Phlentyn A amdano ei deimladau am gwblhau tasgau iaith Cymraeg a dywedwyd ei fod yn trafferthu oherwydd ei fod yn meddwl amdano ei waith yn Saesneg ac o ganlyniad yn cymysgu'n aml. Soniwyd Plentyn A ei fod yn siarad Saesneg yn unig adref gyda theulu ac felly ni ddefnyddiwyd yr iaith Cymraeg tu allan o'i fywyd ysgol. Fodd bynnag, dywedodd Plentyn A bod ei deulu yn ymdrechu i ddysgu'r iaith Cymraeg i gefnogi yn ei fywyd ysgol. Wrth drafod gyda'r athrawes dosbarth esboniwyd bod y teulu yn gefnogol iawn yn fywyd addysg Plentyn A gan ymdrechu i gyfrannu at ddigwyddiad allgyrsiol yr ysgol. Dangoswyd yn Atodiad 4 esiampl o waith Plentyn A gyda geiriau Saesneg wedi'i gymysgu yn dasg ysgrifennu Cymraeg. Mewn cyferbyniad gwelir defnydd o'r iaith Saesneg yn llwyddiannus wrth drafod, ysgrifennu a darllen. Gall Plentyn A defnyddio ystod o ansoddeiriau a dychymig lled yn ei gwaith er ei fod yn esgeuluso gyda'r llythyren 'I' yn Saesneg gan anghofio ysgrifennu fel priflythyren ambell waith pan bod angen.

Sylweddolais bod Plentyn A yn treulio llawer o amser yn yr ystafell dosbarth yn y bore cyn amser cofrestru. Byddaf yn cyrraedd yr ysgol am ugain munud wedi wyth y bore yn rheolaidd a fydd Plentyn A yno yn barod yn yr ystafell dosbarth ar liniadur yn chwarae gemau fideo ar-lein. Eglurwyd Plentyn A ei fod yn teimlo'n ddiogel a lle cyfforddus a heddychlon yn y dosbarth cyn i'r diwrnod ysgol dechrau. Yn ogystal mae Plentyn A yn hapus i drafod ei deimladau yn

ystod y bore cyn ysgol gyda nifer o drafodaethau wedi cynnal yn ystod amser yma'r diwrnod ysgol. Haera Berk (2009) mai emosiwn yn medru fod yn allweddol i les plant. Ychwanegwyd gall ystod o broblemau iechyd ddatblygu os nad yw plant yn teimlo'n hollol ddiogel yn yr ysgol gyda chyfle i drafod teimladau. Er hynny, mae'n bwysig i nodi bod mwyafrif o drafodaethau Plentyn A gyda'i gyfoedion ac oedolion yn seiliedig ar gemau fideo. Efallai gall hyn bod yn achos i bryder. Noda Cesarone (1998) mae gemau treisgar yn dod yn gyson boblogaidd ar draws graddau ar gyfer bechgyn a merched ac yn medru achosi problemau iechyd a meddyliadau ymosodol yn y dyfodol. Fodd bynnag, dadleua Gee (2003) mai manteision i gemau fideo wrth iddo blant datblygu sgiliau newydd i oresgyn rhwystrau megis y lefel neu'r cwest. Cefnoga Tumbokon (2014) gan nodi mae gemau fideo hefyd yn cynyddu cydlyniad llaw-llygad, sgiliau modur mân a rhesymu gofodol.

Yn achos Plentyn A, yr wyf wedi lefelu ei waith rhifedd a llythrennedd ar lefel pedwar (o dan arweiniad y mentor dosbarth) sydd yn ddisgwyliedig am blentyn mewn dosbarth blwyddyn pump. Thema'r tymor yw India ac roedd y dosbarth wedi bod yn astudio hanes Gandhi. Wrth gwblhau gweithgaredd rhyngweithiol mae Plentyn A yn ymateb yn hyderus gyda chywirdeb da wrth siarad. Fodd bynnag, ar adegau, fel soniwyd mai ansawdd yr iaith yn Seisnigaidd. Ar gyfer tasg darllen ac ysgrifennu gofynnwyd i Blentyn A ymchwilio am ffeithiau'r Taj Mahal. Defnyddiwyd y rhyngrwyd yn ogystal â thaflen gwybodaeth a gyflynais a rhestrwyd gwybodaeth ddiddorol yn rhestr daclus gan drefnu o'r ffaith fwyaf diddorol i'r lleiaf diddorol yn ei farn. Mae Plentyn A yn medru ysgrifennu yn ystod o ffurfiau gan ddangos gafael eithaf sicr ar ffurf a gwybod sut i ysgrifennu yn dibynnu ar y gynulleidfa a'r cyd-destun yn llwyddiannus. Dangoswyd Plentyn A ei fod yn medru cwblhau tasgau rhifedd yn llwyddiannus gan gwblhau gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Gwelwyd bod Plentyn A yn medru datblygu strategaethau ar gyfer datrys problemau yn waith annibynnol gan ddangos galw i gof ffeithiau lluosi yn sesiynau mathemateg pen. Yn ystod fy mhrofiad addysgu dangoswyd tystiolaeth o ddehongli cyfesurynnau yn y pedwar pedrant sydd yn un o ofynion lefel pump. Credaf fod Plentyn A yn medru cyrraedd lefel pump erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol.

Camau Nesaf

Awgrymir i Blentyn A i ddatblygu ei iaith Cymraeg i sicrhau llwyddiant yn Gyfnod Allweddol 3 ac addysg bellach. Yr wyf yn anelu i sicrhau bod Plentyn A gyda chyfle i weithio yn rhyngweithiol gyda chyfoedion pan fo'n briodol yn sesiynau iaith. Mynegodd Plentyn A yn gryf yn ei adborth ei fod yn dysgu'n effeithiol trwy gwblhau tasgau iaith yn ymarferol a allai ymestyn ei ddysgu. Gellid awgrymu sesiynau darllen ar ddechrau diwrnod ysgol yn rheolaidd gan osod darllen ar y cyd yn ogystal â darllen unigol. Awgryma Moloney (2000) bod disgyblion yn mwynhau darllen llyfrau sy'n adlewyrchu eu delwedd eu hunain neu'r hyn maen nhw'n anelu at fod a gwneud, llyfrau sy'n eu gwneud iddynt chwerthin ac yn apelio at eu synnwyr o gamymddwyn a llyfrau mewn cyfres, megis y gyfres Harry Potter, sy'n ymddangos i ddarparu synnwyr o gysur ac sydd yn gyfarwydd i'r disgyblion. Cefnoga Wilson (2016) y canfyddiadau yma gan awgrymu gall disgyblion, yn enwedig bechgyn, dewis a phrynu llyfrau ar gyfer y dosbarth yn strategaeth effeithiol i hybu darllen. Rwy'n teimlo gan gyflwyno'r sesiynau darllen yma gall sgiliau iaith Cymraeg Plentyn A, yn ogystal â'i gyfoedion, ehangu i ddatblygu cyraeddiadau'r unigolyn ac yn effeithio yn gadarnhaol ar y bwlch rhwng ei sgiliau iaith Cymraeg a Saesneg.

Yn ogystal â sesiynau darllen, gallwn ddarparu tasgau byr a heriol yn sesiynau iaith ar gyfer Plentyn A wrth i'r dadansoddiad awgrymu ei fod yn perfformio'n llwyddiannus yn dasgau sydd wedi torri lawr i dasgau byr sydd yn adeiladu at brif dasg. Awgryma Cowley (2010) i dorri tasgau yn fyr ac yn benodol gan ddefnyddio amserydd gweledol i'r disgyblion bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau amser ar gyfer y dasg. Ychwanega Cowley (2010) i ddefnyddio iaith i wella lefelau cymhelliant disgyblion gan ddefnyddio geiriau fel cystadleuaeth, gwobr a her. Defnyddiais strategaeth cystadleuaeth ar gyfer rheolaeth dosbarth lle pan fyddaf yn dweud "Dosbarth, dosbarth, dosbarth." mae rhaid i'r dosbarth i gyd ymateb gan ddweud "Ie, ie, ie.". Os nad yw'r dosbarth i gyd yn ymateb ac yn talu sylw yn syth yr wyf yn ennill pwynt, os mae'r dosbarth i gyd yn ymateb maent yn ennill pwynt. Erbyn diwedd yr wythnos os ydy'r dosbarth yn gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau maent yn ennill y gystadleuaeth ac yn cael eu gwobrwyo. Gallaf ymgorffori strategaeth debyg i hybu gwaith atalnodi Plentyn A gan roi targed o ganolbwyntio ar atalnodi yn unig ac os mae'n llwydo gall Plentyn A cael ei gwobrwyo.

Trwy ddefnyddio'r strategaeth yma gallwn amrywio'r targed o wythnos i wythnos i ddatblygu elfennau gwahanol Blentyn A.

Ni ddefnyddiwyd meini prawf llwyddiant yn yr ysgol yn rheolaidd ar hyn o bryd. Teimlaf gall cyflwyno meini prawf llwyddiant ar gyfer dasgau yn rheolaidd yn effaith cadarnhaol ar gyfer Plentyn A oherwydd treuliwyd llawer o amser yn gwirio gyda'i gyfoedion y cyfarwyddiadau tasgau. Daw Clarke (2009) i'r casgliad yn astudiaeth achos mai'r plant yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu gan eu bod wedi cynhyrchu eu meini prawf llwyddiant eu hunain a gallant ystyried y camau nesaf wrth gyfeirio at y meini prawf llwyddiant. Ychwanega Clarke (2009) gan alluogi i'r dosbarth penderfynu ar feini prawf llwyddiant eu hun mae cyraeddiadau yn medru gwella o fewn mis. Dengys Ffigwr 1 gwelliant yn ganlyniadau disgyblion yr astudiaeth yn y tabl isod:

	Before use of Success Criteria February 2009					**After use of Success Criteria** March 2009				
	Paper A	Paper B	Mental	Total	Level	Paper A	Paper B	Mental	Total	Level
Sam	27	30	16	**73**	**4a**	37	38	19	**94**	**5a**
Thomas	29	35	19	**83**	**5c**	37	35	20	**92**	**5b**
Abigail	27	29	19	**75**	**4a**	35	36	17	**88**	**5b**
Nathan	23	31	17	**71**	**4a**	38	36	18	**92**	**5b**
Laura	28	32	18	**78**	**4a**	39	37	20	**96**	**5a**

Ffigwr 1. Tabl i ddangos cynnydd mewn sgoriau profion disgyblion astudiaeth achos. (Clarke, 2009).

Yn ychwanegol, yn ystod y cwrs TAR gwelais esiampl o arfer dda yn ysgol yn Sir Abertawe lle mae'r disgyblion yn hunanwerthuso eu gwaith gan liwio darnau o'r gwaith sydd yn cysylltu gyda'r meini prawf llwyddiant. Gan ddefnyddio'r strategaeth yma mae'r disgyblion yn medru sicrhau maent wedi ateb yr holl dargedau a osodwyd ganddynt ar gyfer y darn gwaith. Trwy wneud hyn, mae'r plant yn cael synnwyr o foddhad ac maent yn falch o'r gwaith cynhyrchwyd. Mae hwn yn un strategaeth byddwn i'n cyflwyno ac yn asesu ar y manteision o'i ddefnyddio gyda Phlentyn A.

I ddatblygu rhifedd Plentyn A byddwn yn cynghori i barhau gyda sesiynau CLIC lle mae disgyblion yn ymarfer sgiliau mathemateg pen am sesiwn fer o ugain munud yn ddyddiol. Maent yn cwblhau'r gweithgareddau ar fyrddau gwyn bach yn annibynnol ac o adborth Plentyn A mae'n medru datblygu sgiliau mathemateg gorau wrth gwblhau heriau annibynnol. Byddaf yn parhau i ddefnyddio gemau ar ddechrau sesiynau rhifedd i gyfoethogi'r wybodaeth a ddysgwyd yn sesiynau cynt wrth i Blentyn A sôn ei fod yn mwynhau'r gweithgareddau. Fodd bynnag, byddaf yn gwahaniaethu'r tasgau yn well yn ogystal â sicrhau bod Plentyn A yn gweithio gydag unigolyn sydd ar yr un lefel yn hytrach na phlentyn MAT i osgoi'r plentyn MAT yn arwain y dasg ac yn rhoi digon o gyfle i Blentyn A chwblhau'r gemau neu ymarferion rhyngweithiol.

Er mwyn gwella hyder Plentyn A wrth gwblhau tasgau rhifedd byddaf yn gadael iddo benderfynu ar ba weithgaredd i gwblhau gan gyflwyno system dewis a herio lle mae'r disgyblion yn medru dewis gweithgaredd o lefel lleiaf heriol i'r mwyaf heriol. Gan mai thema' tymor yw India byddaf yn cyflwyno tri dewis sef: *Korma* – lefel isel, *Tikka Masala* – lefel canolig a *Vindaloo* – lefel uchel. Efallai bydd Plentyn A yn dewis gweithgaredd lefel isel ond erbyn y diwedd bydd Plentyn A yn medru cwblhau gweithgaredd lefel uchel ac o ganlyniad bydd ei hyder a sgiliau yn datblygu'n llwyddiannus. Noda Bragg (2016) ei nod yw ysgogi plant mewn ffyrdd mwy galluog na graddau, gan hwyluso adlewyrchiad y plant eu hunain ac ymwybyddiaeth ohonynt eu hunain fel dysgwyr mewn amgylchedd cydweithredol ac anghystadleuol. Ychwanega Bragg (2016) mai'r strategaeth yn datblygu arferion, perthnasau a hunaniaethau newydd yn yr ystafell ddosbarth; ac sy'n caniatáu i ysgolion ddatblygu strategaethau gwella yn unol â'u gwerthoedd eu hunain.

Soniwyd yn y rhagarweiniad amdano rieni Plentyn A yn cael ysgariad. Wrth ddadansoddi Plentyn A mae ei lles i weld yn dda fodd bynnag mae'n bwysig i sicrhau bod cefnogaeth ar gael os bod angen arno yn y dyfodol. Dadleua Wilson et al. (2003) mai plant gyda rhieni sydd ar wahân yn fwy peryg o brofi nifer o ganlyniadau niweidiol o'u cymharu â phlant y mae eu rhieni yn aros gyda'i gilydd. Felly mae'n bwysig i sicrhau bod cynllun cefnogaeth ar gael i Blentyn A os bod angen. Noda Wade a Smart (2002) un canfyddiad pwysig yw nad yw plant o reidrwydd yn dymuno cael rhagor o gyfleoedd i siarad, o leiaf pe bai pobl yn dod â'r gwasanaeth yn ddieithriaid na allant gael perthynas o ymddiriedaeth. Felly o'r awgrymiadau

mae angen sicrhau bod perthynas gref wedi'i adeiladu gyda Phlentyn A ond nid yw'n ymwthiol. Cyn belled â'u bod yn gwybod bod rhywun i ymddiried ynddo, pwy y gallant siarad â hwy pan fo angen credaf bydd lles Plentyn A yn cael ei gynnal.

Yn ychwanegol gall Plentyn A buddio o gwblhau rhyw fath o ddyletswydd dosbarth i geisio hybu hunanhyder. Er ei fod yn gweld yn hyderus wrth arsylwi arno mae'r canfyddiad o ddiffyg hyder wrth gwblhau gweithgareddau felly gall y ddyletswydd helpu'r mater hwn. Gall iddo gael dyletswydd er enghraifft swyddog byrddau gwyn bach gan fod perthynas gref gyda'i gyfoedion. Awgryma *Early Years Careers* (2016) yn aml, mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso pan roddir cyfrifoldeb bychan iddynt ac maent yn cymryd eu rôl yn ddifrifol iawn. Mae hyn yn arwain at blant â mwy o hyder, aeddfedrwydd a hunan-barch.

Wrth ymgorffori'r camau nesaf i Blentyn A deimlaf ei fod yn medru cyrraedd y targed o lefel pump cyn gadael Cyfnod Allweddol 2. Y bygythiad mwyaf i hyn yw ei fywyd tu allan i'r ysgol a'i sefydlogrwydd. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni welwyd unrhyw effaith ar ei fywyd addysg ond mae'n allweddol i sicrhau bod mesurau priodol ar waith os oes angen unrhyw gefnogaeth ar Blentyn A. Yn ystod yr astudiaeth mae'n dangos yn glir ei fod yn medru datblygu ei sgiliau yn effeithiol, yn enwedig yn dasgau rhyngweithiol ac ar lafar. Yn sicr mae angen datblygu ar ei ddefnydd o iaith Cymraeg trwy geisio dysgu cymaint ag y bo modd i ddatblygu ei strwythur ysgrifennu a'i eirfa.

Casgliadau

Teimlaf fod yr ymchwiliad yma wedi bod yn fuddiol cyn i mi ddechrau fy ngyrfa fel athro proffesiynol. Wrth gael y profiad o gasglu data am ddysgwyr teimlaf fy mod yn medru cydnabod camau nesaf penodol ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, bydd angen gwneud hyn o dan arweiniad athrawon profiadol ar ddechrau fy ngyrfa i sicrhau bod yr awgrymiadau yn briodol ar gyfer y dysgwyr.

Prif wendid yr astudiaeth hon oedd y cyfyngiadau amser. Casglwyd ystod o ddata ond oherwydd fy mod yn casglu data ar yr un amser ac addysgu'r dosbarth mae'n debyg gall llawer o bethau fynd yn anweladwy wrth i'm sylw gael ei dynnu i ddysgwyr eraill yn hytrach na

Phlentyn A yn unig. Rwyf o'r farn fy mod wedi dod i adnabod Plentyn A yn ddigon dda fel unigolyn, er hynny nid wyf yn gallu dweud yn hyderus sut mae'n dysgu gorau hyd yn hyn. Teimlaf fod angen mwy o amser yn asesu ac addysgu Plentyn A i fod yn sicr o fy nghanfyddiadau i fod yn hyderus mai'r camau nesaf fe wnes i awgrymu yn profi'n llwyddiannus. Yn ogystal, dylid trefnu bod rhagor o amser ar gael i arsylwi a thrafod gyda Phlentyn A amdano ei addysg. Argymhellir y dylid cynnal ymchwil pellach gan ddefnyddio'r dull mosaig i ymchwilio yn fwy manwl gan amrywio strategaethau asesu ar gyfer dysgu, monitro ac addysgu. Fel soniwyd, os oedd mwy o amser a bod yr amser yn cael ei reoli'n effeithiol, gallaf wedi creu dadansoddiad llawer mwy manwl ac effeithiol o Blentyn A. Yn ystod fy ngyrfa broffesiynol fel athro mae gennyf yr amser i asesu a dadansoddi dysgwyr yn fy nosbarth yn fwy dwys felly mae'r ymchwiliad wedi bod yn brofiad da wrth i mi geisio datblygu fy ngwybodaeth wrth ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf llwyddiannus o addysgu fy nysgwyr.

Rhestr Gyfeirio

Adroddiad Donaldson (2015) Dyfodol Llwyddiannus
Ar gael: http://learning.gov.wales/news/sitenews/successful-futures/ Cyrchwyd ar 24ain o Fai, 2018.

BERA (2011) *Ethical guidelines for education* Ar gael: http://content.yudu.com/Library/A2xnp5/Bera/resources/index.htm?referrerUrl=http://free.yudu.com/item/details/2023387/Bera Cyrchwyd ar: 15fed o Fai, 2018.

Berk, L.E (2009). *Child Development.* Boston: Pears

Blaxter, L., Hughes, C. a Tight, M. (1996) *How to Research.* Buckingham: Open University Press.

Bragg, S. (2016). Perspectives on 'Choice and Challenge' in primary schools. *Article*.

Broekhof, K. (2011) More reading, better in language. *Effects of reading on language development.*

Brown, N. (2015). *The Mosaic approach according to Clark and Moss.* Ar gael: http://www.nicole-brown.co.uk/the-mosaic-approach-according-to-clark-and-moss/. Cyrchwyd ar 21ain o Fai, 2018.

Cesarone, B. (1998). Video Games: Research, Ratings, Recommendations. ERIC Digest. *ERIC Clearinghouse on Elementary and Early Childhood Education Champaign*.

Christiensen, P. a James, A. (eds) (2000) *Research with Children.* London: Falmer Press.

Christensen, P.H. (2004) Children‟s Participation in Ethnographic Research:

Issues of power and representation‟. Children & Society 18(2) p.165-176.

Clark, A. (2004) 'The Mosaic Apprach and Research with Young Children' in Lewis, V., Kellet, M., Robinson, C., Fraser, S. a Ding, S. *The Reality of Research with Children and Young People*. London: SAGE.

Clarke, S. (2009). *Learning objectives and success criteria.* Ar gael: https://www.shirleyclarke-education.org/research/learning-objectives-and-success-criteria-2009-year-4-3rd-grade-us-year-6-5th-grade-us/. Cyrchwyd ar 25ain o Fai, 2018.

Cohen, L. a Manion, L. (1994) *Research Methods and Statistics in Psychology,* 2nd ed. London: Routledge.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. (1989). *Convention on the Rights of the Child.* Ar gael: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?_ga=2.248571463.150114462.1527515068-562809872.1527515068. Cyrchwyd ar 23ain o Fai, 2018.

Conteh, J. a Toyoshima, S. (2005). Researching teaching and learning: Roles, identities and interview processes. *English Teaching: Practice and Critique*. 4, 23- 34.

Cooke, B. a Kothari, U. (Eds) (2001) *Participation: the new tyranny?* London: Zed Books.

Cowie, H., Huser, C. a Myers, C. (2014). The Use of Participatory Methods in Researching the Experiences of Children and Young People. *Croatian Journal of Education*. 16. Tud 51 - 66.

Early Years Careers. (2016). *Giving children responsibility in the Early Years.* Available: http://www.earlyyearscareers.com/eyc/learning-and-development/encouraging-independence-early-years/. Last accessed 27ain o Fai 2018.

ESTYN. (2017). *Adroddiad.* Ar gael: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Pontybrenin.pdf. Cyrchwyd ar 15fed o Fai, 2018.

ESTYN. (2016). *Adborth effeithiol i gynorthwyo dysgwyr annibynnol.* Ar gael: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/adborth-effeithiol-i-gynorthwyo-dysgwyr-annibynnol?_ga=2.41831072.306493494.1527501082-1706641994.1504949909. Cyrchwyd ar 22ain o Fai, 2018.

Gallacher, L.A. and Gallagher, M. (2008) "Methodological immaturity in Childhood Research?: Thinking through participatory methods". *Childhood* 15(4)

George, D. (2011) *Young Gifted and Bored*. Carmarthen: Crown House Publishing.

Gee, P. (2003). What Video Games Have to Teach Us About Learning and Literacy. *ACM Computers in Entertainment*. 1 (1)

Grigg, R. (2015) *Becoming an Outstanding Primary School Teacher.* Oxon: Routledge.

Higgins, S., Katsipataki, M., Kokotsaki,D., Coleman,R., Major,L.E., a Coe, R. (2014). *The Sutton Trust – Education Endwoment Foundation Teaching and Learning Toolkit.* London" Education Endowment Foundation.

Hitchcock, G., & Hughes, D. (1995). *Research and the teacher: A qualitative introduction to school-based research* (2nd ed). London: Routledge.

James, A., Jenks, C. and Prout, A. (1998) *Theorizing Childhood.* Cambridge: Polity Press.

Krashen, S. D. (2004). *The power of reading: Insights from the research.* Westport, CT: Libraries Unlimited.

Kvale, S. (1996). *Interviews: An introduction to qualitative research Interviewing.,* Thousand Oaks, London, New Delhi: Sage.

Langsted, O. (1994) 'Looking at quality from the child's perspective', in Moss, P. a Pence, A. (eds), *Valuing Quality in Early Childhood Services: new approaches to defining quality.* London: Paul Chapman.

Lewis, A. a Lindsay G. (2000) (Eds) *Researching Children's Perspectives.* Buckingham: Open University Press.

Moloney J., *Boys and Books: Building a Culture of Reading Around Our Boys.* ABC Books. 2000.

Nisbet, J.D. (1977) 'Small-scale research: guidelines and suggestions for development', *Scottish Educational Studies,* Mai 9fed, 13 – 17.

Nottingham, J (2013) *Encouraging Learning: How you can help children learn.* Oxon: Routledge.

Qvortrup, J., Bardy, M., Sgritta, G. a Wintersberger, H. (eds) (1994) *Childhood Matters.* Vienna: European Centre.

Rorty, R. (1979). *Philosophy and the mirror of nature*. Princeton, NJ: Princeton University Press.

Tumbokon, C (2014). *The Positive and Negative Effects of Video Games.Raise Smart Kid.* Ar gael: http://www.raisesmartkid.com/3-to-6-years-old/4-articles/34-the-good-and-bad-effects-of-video-games Cyrchwyd ar 24ain o Fai, 2018.

Wade, A. a Smart, C. (2002). *How primary school children cope with family change.* Ar gael: https://www.jrf.org.uk/report/how-primary-school-children-cope-family-change. Cyrchwyd ar 27ain o Fai, 2018.

Wilson, A., Edwards. J., Allen, S. a Dasgupta, C. (2003). *School-based support work for children whose parents have separated.* Ar gael: https://www.jrf.org.uk/report/school-based-support-work-children-whose-parents-have-separated. Cyrchwyd ar 27ain o Fai, 2018.

Wilson, G. (2016). *Four strategies to engage boys in literacy and close the gender gap.* Ar gael: https://educationblog.oup.com/primary/engaging-boys-in-literacy. Cyrchwyd ar: 23ain o Fai, 2018.

Atodiadau

Atodiad 1

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2018.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
MARRI EDWARDS

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA): YSGOL GYFUN GYMRAEG PONTYBRE

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

CARYS WILLIAMS

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

C. Williams

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen Helen Lewis : h.e.lewis@uwtsd.ac.uk


Diolch yn fawr o flaen llaw,

,


Helen Lewis, 5.3.18

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD


Atodiad 2



Atodiad 3



Atodiad 4



Dydd Iau, Mai 10fed

AYW: I ysgrifennu Portreiad Gandhi.

Gandhi!!

Ganwyd Gandhi ar yr ail o Hydref 1869. Enw llawn gandhi oedd Mohandas Karamchanda Gandhi. Priododd Gandhi pan roedd 13 mlwydd oed oherwydd roedd en traddodiadol yw wneud yn India. Ond roedd Gandhi yn edrych fel yn Lerpwl, daeth and gyda rychau are ei wyneb.

Wnaeth Gandhi ymladd yn erbyn llaeger i Gael annibyniaeth i India. Roedd arwain Non-violent Protest. Dechreuodd ymladd am Annibyniaeth India ar ol Cael profiad o hiliol yn De africa. Esteddodd Gandhi yn seksiwn first class ar y tren eisteddodd ar bwys rhywun Croen wyn ac ar ol ir ddyn Cwyno Cofodd Gandhi bwl mo ar tren hyn ar bryd roedd gandalo Eiced.

Roedd Gandhi yn edrych yn debyn ac yn hen gyda rychau ar drawsen wyneb. Roedd en hefyd yn hyderus ac yn Dewr. Roedd Gandido llawer o fans fel dros 5 000. Roedd Pawb moen helpu Gandi ymladd am Annybyniaeth India. Yn anffodus Cofodd Gandhi ei seithi yn 1948 Ionawr 30 ain. Dros billion o pobl wedi dod i angladd Gandhi. Marodd pryd roedd en 78 mlwydd oed.